# PECYN RECRIWTIO YMDDIRIEDOLWYR



PLATFFORM

For mental health and social change
Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol

# CYNNWYS

1 CROESO GAN EIN CADEIRYDD

2 PWY YDYM NI A BETH RYDYM YN EI WNEUD

3 EIN MATERION ARIANNOL

4 EIN STRWYTHUR CYFREITHIOL

5 EDRYCH YMLAEN

6 RÔL YMDDIRIEDOLWYR AC AM BWY RYDYM YN CHWILIO



# NEWID Y NARATIF AM IECHYD MEDDWL



## 1 CROESO GAN EIN CADEIRYDD

### Annwyl ymgeisydd

Diolch am ddangos diddordeb yn y rôl Ymddiriedolwr gyda Platfform. Rydym yn awyddus i recriwtio nifer o Ymddiriedolwyr newydd i'n Bwrdd a bwriadwn wneud hynny mewn dwy ran yn ystod y deuddeng mis nesaf. Wrth i ni gwblhau'r broses o uno ag Ymddiriedolaeth Mayday, rydym yn dod â'r gwersi a ddysgwyd a'n profiad at ei gilydd ac yn ehangu ein gwaith yng Nghymru i Loegr. Mae'n gyfnod prysur a chyffrous.

Ymunais â Bwrdd Platfform yn 2020. Cefais fy nenu at Platfform yn y lle cyntaf oherwydd pwrpas ac uchelgais y sefydliad, ac eglurder ei strategaeth. Roedd yn amlwg ein bod yn rhannu'r un gwerthoedd ac ymrwymiad i gyfiawnder cymdeithasol. Mae hyn yn elfen greiddiol iawn o'n meddylfryd a'n gweithredoedd.

Un peth a'm trawodd oedd gonestrwydd datganiad gwrth-hiliaeth Platfform. Mae'r datganiad yn cydnabod ein bod yn rhan o'r broblem, a hefyd yn amlinellu cynllun gweithredu, gan ddangos ymrwymiad i fod yn sefydliad gwrth-hiliol. Mae llawer o waith i'w wneud eto, ac fel Cadeirydd fy rôl i yw sicrhau ein bod yn ymestyn ein huchelgeisiau ac nad ydym yn llaesu dwylo.

Camais i swydd y Cadeirydd ym mis Medi 2023, gan olynu Ubongabasi Obot. Rwy'n falch o helpu i arwain sefydliad sy'n ceisio byw ei werthoedd, a gweithio'n galed i gyflawni ei uchelgais. Rwyf hefyd yn falch ein bod yn gwneud y gwaith dan wenu, hyd yn oed ar adegau anodd, gan ddangos caredigrwydd a hiwmor. Rydym yn gweithio'n galed, ac yn chwerthin llawer.

I mi, mae diwylliant ein trefniadau Llywodraethu yn dangos beth a ddisgwyliwn gan weddill tîm Platfform – y gwerthoedd o fod yn gysylltiedig, tosturiol, dewr, a chwilfrydig, er mwyn cyflawni ein gwaith gyda'n gilydd.

Rydym yn groesawus, agored, gonest, a charedig at ein gilydd. Mae ein cyfarfodydd yn strwythuredig, â ffocws penodol, ond yn weddol anffurfiol a hamddenol, ac yn annog syniadau amrywiol a chyfleoedd i arloesi.

Rydym yn cyfarfod fel Bwrdd llawn bob chwe wythnos ac mae gennym ddau bwyllgor sefydlog, y Pwyllgor Llywodraethu a Thâl a'r Pwyllgor Cadernid Busnes, sy'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn.
Rydym yn adolygu'r strwythur hwn wrth i ni sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu yn addas ar gyfer heddiw a'r dyfodol – fel bod pethau'n gallu newid.

Rydym yn tyfu'n gyflym ac mae angen i ni sicrhau craffu trylwyr tra'n sicrhau bod digon o amser mewn cyfarfodydd bwrdd llawn ar gyfer dulliau cynhyrchiol o feddwl, strategaeth a dealltwriaeth ddofn o'n heffaith, dylanwad a chyflawni ein diben.

**Rydym yn disgwyl papurau a chyflwyniadau o safon uchel gan ein Prif Swyddog Gweithredol a'r tîm gweithredol, ac rydym yn cadw pethau'n symud yn gyflym. Rydym yn disgwyl i'n Hymddiriedolwyr baratoi, bod yn bresennol ac ymgysylltu.**

Diolch unwaith eto i chi am ddangos diddordeb yn ein gwaith a dymuniadau gorau i chi â'ch cais. Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl, mae croeso i chi siarad ag Ewan Hilton ein Prif Swyddog Gweithredol. Gallwch drefnu amser i gael sgwrs gydag ef drwy gysylltu â Heidi O'Driscoll, Cynorthwyydd Personol y Tîm Gweithredol - **heidiodriscoll@platfform.org**.

Dymuniadau gorau

**Anne-Louise Clark**
**Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr**

PLATFFORM

# 2 PWY YDYM NI A BETH RYDYM YN EI WNEUD

**Platfform yw'r elusen ar gyfer iechyd meddwl a newid cymdeithasol.**

Rydym wedi gwreiddio'n ddwfn ym mhrofiadau'r bobl rydym yn eu cefnogi, y cymunedau lle rydym yn gweithio, a'n brwydr i sicrhau cyfiawnder cymdeithasol.

Cawsom ein sefydlu yn niwedd yr 80au fel ymddiriedolaeth dai Gofal, elusen fach ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn darparu tai a chymorth i oedolion a oedd yn gadael sefydliadau seiciatrig arhosiad hir. Dros y blynyddoedd rydym wedi tyfu ac wedi amrywio ein darpariaeth i bobl sy'n profi heriau iechyd meddwl.

Yn 2018, roeddem yn teimlo bod angen i ni newid. Er bod Gofal yn edrych yn llwyddiannus o'r tu allan, doedd pethau ddim yn teimlo felly y tu mewn. Dechreuasom ystyried sut roeddem wedi datblygu, a meddwl am ein pwrpas – a dechrau sylweddoli, er bod gwaith da'n cael ei wneud, ein bod hefyd yn rhan o'r broblem yn y system iechyd meddwl.

Dechreuasom adolygiad strategol o bwy oedden ni a beth roedd arnon ni eisiau bod; roedd yn amlwg bod angen i ni newid. Mae blog a ysgrifennwyd ar y pryd gan ein Prif Swyddog Gweithredol yn crynhoi canlyniad yr adolygiad: **https://platfform.org/blog/on-calling-it-out/**

Doedden ni ddim yn gwybod pan wnaethon ni gychwyn ein hadolygiad mai Platfform fyddai'n datblygu ohono - ond dyna ddigwyddodd, ac ar 24 Gorffennaf 2019 fe wnaethom lansio ein strategaeth newydd a'n brand newydd. Dyma oedd cychwyn Platfform dros Newid.

Roedd gennym bellach genhadaeth newydd, pwrpas clir a strategaeth â ffocws penodol i roi cyfeiriad i ni. Trosglwyddwyd gwaith yn ôl i gomisiynwyr nad oeddent yn gydnaws mwyach â'n diben a'n gwerthoedd.

## Ein Gweledigaeth yw

**llesiant cynaliadwy i bawb.**

Cynaliadwy yn golygu "para'n hir," Llesiant yn golygu "ymdeimlad o bwrpas, optimistiaeth, gobaith, galluedd, a chyfeiriad", a Phawb yn golygu "ni, ein cymuned, pobl rydym yn gweithio gyda nhw, a chymunedau ehangach o bob math – rhai dynol ac annynol."

## Ein Cenhadaeth yw

**newid y naratif trechol ynglŷn ag iechyd meddwl**

- Drwy geisio sicrhau dealltwriaeth o effaith trawma, profiadau bywyd ac amgylchiadau economaidd-gymdeithasol ar ein hiechyd meddwl a'n gallu i wella.
- Drwy wneud y dystiolaeth ar gyfer hyn yn hygyrch er mwyn helpu i newid canfyddiadau pobl.

**gwneud i'n 'systemau helpu' weithio'n well i bobl**

- Drwy newid y ffordd rydym yn darparu gwasanaethau i bobl mewn trallod.
- Canolbwyntio yn gyntaf ar iechyd meddwl, tai, digartrefedd, a systemau pobl ifanc rydym yn rhyngweithio â nhw.

Ein cenhadaeth yw'r prawf litmws ar gyfer popeth rydym yn ei wneud, ac yn bwysig iawn, nad ydym yn ei wneud. Os nad yw'n pasio'r prawf litmws dydyn ni ddim yn ei wneud.

Mae wedi bod, ac mae'n dal i fod, yn antur lle rydym yn dysgu bob diwrnod – mae pethau'n symud yn gyflym, rydym yn arbrofi, rydym yn methu, ac rydym yn llwyddo.



# DEWR, TOSTURIOL, CYSYLLTIEDIG, CHWILFRYDIG



## EIN GWERTHOEDD

Ym mhopeth rydym yn ei wneud rydym yn ceisio bod yn

- **Ddewr**
  oherwydd bod arnom eisiau newid y byd.
- **Tosturiol**
  oherwydd ein bod yn credu bod hyn ar goll yn aml yn ein gwasanaethau helpu.
- **Cysylltiedig**
  oherwydd heb gysylltiad dydyn ni yn ddim byd.
- **Chwilfrydig**
  oherwydd dydyn ni byth eisiau stopio dysgu.

### Beth rydyn ni'n ei wneud

- **Atal argyfwng a chartrefi**
  Gwasanaethau argyfwng, llety â chymorth, atal digartrefedd a chymorth tai arbenigol.
- **Cyflogaeth, gwirfoddoli, a datblygu sgiliau**
  Lleoliadau gwaith, mentora cymheiriaid, cymwysterau a chymorth yn y gymuned.
- **Plant, pobl ifanc, teuluoedd, a chymunedau**
  Rhaglenni llesiant, cymorth un-i-un a grŵp, rhwydweithiau cymheiriaid, sesiynau galw heibio y tu allan i oriau, prosiectau cymunedol.
- **Llesiant**
  Therapïau siarad, goruchwyliaeth glinigol, llesiant yn y gweithle, sefydliadau ystyriol o drawma ac ymgynghori pwrpasol.

### Rydym yn gweithio i wneud y byd yn lle gwell drwy:

- **Ddylanwadu**
  Gwaith polisi, materion cyhoeddus ac ymgyrchoedd i newid systemau sector cyhoeddus ac esblygu'r naratif ynglŷn ag iechyd meddwl. Gallwch ddarganfod mwy am ein gwaith yma: https://platfform.org/system-change/

### Pam rydym wedi mabwysiadu model cyfiawnder cymdeithasol i iechyd meddwl?

Daeth Platfform i fodolaeth ar ôl i ni sylweddoli nad yw ein systemau iechyd meddwl yn addas i'r diben. Maent wedi eu hadeiladu o gwmpas cysyniadau meddygol sy'n edrych ar symptomau, yna'n ceisio canfod a thrin achos y symptomau hyn yn yr unigolyn.

Ond nid dyna sut mae iechyd meddwl yn gweithio. Mae mwy a mwy o dystiolaeth yn dangos bod ein trallod yn ymateb i'n profiadau blaenorol a'n hamgylchiadau presennol – nid canlyniad rhywbeth sydd 'o'i le' ynom ni y gellir ei 'drwsio.'

O ganlyniad, er mwyn gallu symud ymlaen tuag at ein gweledigaeth o 'lesiant i bawb,' mae angen i ni fynd at wraidd trallod – yn ein cymdeithas, yn ein trawma unigol a chyfunol, ac yn ein perthnasoedd neu ddiffyg perthnasoedd.

Mae angen i'r model hwn ar gyfer deall anghenion iechyd meddwl gael ei adlewyrchu mewn gwasanaethau a systemau iechyd meddwl, ac mae angen i bolisi'r llywodraeth ystyried a gwneud darpariaeth ar gyfer hyn. Ac yn Platfform, hefyd, mae angen i ni ddangos y dull gweithredu hwn – yn y cymorth rydym yn ei gynnig, y newidiadau rydym yn galw amdanynt, a'n diwylliant sefydliadol ni ein hunain.

Rhaid i'r diwylliant sefydliadol hwn gael ei ymgorffori gan ein harweinyddiaeth ar bob lefel, gan gynnwys y Bwrdd – ac un o brif rolau'r Bwrdd yw sicrhau cydbwysedd rhwng ein huchelgais fel elusen a'n cyfrifoldeb fel cyflogwr, gan ein symud ymlaen mewn ffordd gynaliadwy, a sicrhau bod ein timau gyda ni ar y daith.

Mae hyn yn dechrau â byw ein gwerthoedd: Dewr, Tosturiol, Cysylltiedig a Chwilfrydig. Dyma ein meini prawf er mwyn cwestiynu a llywio ein dull gweithredu bob cam o'r ffordd.

I ddarganfod mwy am benderfynyddion cymdeithasol iechyd meddwl, a'r dystiolaeth y tu ôl i'n dull gweithredu, darllenwch ein maniffesto yn platfform.org/manifesto

PLATFFORM

> MAE PROSIECT GWYCH EFFRO WEDI BOD O GYMORTH I MI A'M GŴR ERS DROS DDWY FLYNEDD. MAE'R GWEITHGAREDDAU WEDI DOD Â CHALONDID I'M GŴR AC WEDI ANNOG YMDEIMLAD O LESIANT. MAE'R TÎM WEDI FY NGHEFNOGI MEWN LLAWER O FFYRDD GAN GYNNWYS DOD I DELERAU Â SEFYLLFAOEDD ANODD AC EMOSIYNOL O GANLYNIAD I REOLI DEMENTIA FY NGŴR".

**Menyw yr oedd ei gŵr yn cael cefnogaeth drwy ein prosiect dementia Effro**

> DYDW I ERIOED WEDI BOD YN UNMAN TEBYG I HYN. RO'N I'N NERFUS, OND ROEDD Y STAFF I GYD YN GAREDIG. ROEDDWN I'N OFNI Y BYDDWN YN CAEL FY MARNU, OND ROEDDEN NHW'N FY NGWELD FEL PERSON AC MAE PAWB YN WYCH YMA".

**Guest at Tŷ Cynnal crisis support house**

# EIN GWAITH A'I EFFAITH

- **Rydym yn cyflogi tua 300 o staff ac mae gennym dros 100 o wirfoddolwyr a gweithwyr cysylltiedig.**
- **Rydym yn cefnogi dros 12,000 o bobl y flwyddyn mewn mwy na 150 o brosiectau a gwasanaethau.**


O fewn hyn, roedd 4,930 yn ein gwaith Atal Argyfwng a Chartrefi; mae man lle gall pobl deimlo'n ddiogel, yn enwedig mewn argyfwng, yn un o gonglfeini llesiant. Dywedodd 84% o'r rhai y buom yn gweithio â hwy drwy'r prosiectau hyn fod eu hiechyd meddwl a'u llesiant wedi gwella – a dywedodd 81% eu bod yn teimlo'n fwy abl i reoli eu llety eu hunain.

Bu ein timau Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd yn gweithio gyda 3,708 o bobl, a dywedodd 87% fod eu llesiant wedi gwella. Teimlai 97% fod rhywun yn gwrando arnynt ac yn clywed – mae hwn yn bwynt pwysig iawn i ni, gan fod llawer o'n gwasanaethau yn y maes hwn yn seiliedig ar y syniad o gydgynhyrchu, a sicrhau bod barn a phrofiadau pobl ifanc yn rhan greiddiol o ddylunio'r gwasanaethau sy'n cynnig cefnogaeth iddynt.

Adlewyrchir y nod canolog hwn o ddarparu cymorth wrth i bobl ganfod eu ffordd eu hunain ymlaen hefyd yn ein rhaglenni Cyflogaeth, a fu'n gweithio gyda 676 o bobl y llynedd. Mae ffurfio cysylltiadau newydd mewn cymunedau lle mae'r prosiectau hyn yn gweithio yn enghraifft dda o'r ffyrdd rydym yn ceisio gweithio ar draws y sefydliad; cymryd amser i wrando, a deall beth sydd wrth wraidd y rhwystrau y mae pobl yn eu hwynebu yn eu bywydau.

Mae gennym ôl troed cynyddol, yn gweithio yng Nghymru yn bennaf ac yn ymledu'n raddol i Loegr.

Ym mis Gorffennaf 2023 cysylltodd Ymddiriedolaeth Mayday â ni i drafod uno – roedd ein perthynas hir a'n hymrwymiad i newid systemau yn golygu ei bod yn pasio'r 'prawf litmws.' Bydd dod â'n gwaith at ei gilydd ac adeiladu ar ein dysgu a'n profiadau cyffredin yn cynyddu ein cyrhaeddiad a'n heffaith. Ym mis Hydref daeth Mayday yn is-gwmni i Platfform ac mae'r gwaith o integreiddio'n llawn i mewn i Platfform yn mynd rhagddo. Mae hyn yn cynnig cyfle i symud yn strategol i Loegr – gallwch ddarganfod mwy am yr uno hwn yn y pecyn dan **Gwneud mwy gyda'n gilydd: uno newydd yn creu gorwel newydd.**




> FE WNAETH PLATFFORM FY NGALLUOGI I GAEL Y CYMORTH RO'N I EI ANGEN MEWN FFORDD OEDD YN CAEL EI HARWAIN GEN I, FEL Y PERSON IFANC [...] RO'N I'N GALLU PENDERFYNU PA NEWIDIADAU RO'N I ANGEN EU GWNEUD YN FY MYWYD I. ROEDD PLATFFORM YNO I ROI CEFNOGAETH DRWY'R BROSES HON A'M HELPU I GAEL GAFAEL AR UNRHYW OFFER NEU ADNODDAU RO'N I EU HANGEN."


**Person ifanc yn cael cefnogaeth yn Abertawe**


> MAE DOD YMA BOB WYTHNOS YN RHYWBETH RYDW I'N EI WNEUD YN RHEOLAIDD AC MAE'N RHYWBETH I MI EDRYCH YMLAEN ATO".

**Person yn mynd i ddigwyddiad cyswllt cymunedol yng Ngwent**

# 3 EIN MATERION ARIANNOL

Mae gennym incwm blynyddol o tua £15 miliwn sy'n dod o ffynonellau amrywiol a nodir isod.




PLATFFORM

# 4 CYFANSODDIAD A STRWYTHUR


Rydym yn elusen gofrestredig (rhif elusen 1000889). Gallwch weld ein gwybodaeth, gan gynnwys dogfennau llywodraethu a chyfrifon wedi'u harchwilio ar wefan y Comisiwn Elusennau here **https://register-of-charities.charitycommission.gov.uk/charity-details/?regId=1000889&subId=0**.

## Strwythur y sefydliad: Bwrdd ac Arweinyddiaeth

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n bennaf gyfrifol am arweinyddiaeth strategol, llywodraethu, a rheolaeth briodol Platfform. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwe wythnos a cheir dau ddiwrnod cwrdd i ffwrdd wyneb yn wyneb bob blwyddyn.

Mae dau bwyllgor sefydlog – y Pwyllgor Llywodraethu a Thâl a'r Pwyllgor Cadernid Busnes. Gallwch gyfarfod rhai o dîm Platfform yma **https://platfform.org/about-us/this-is-us/**

Gallwch ddarllen mwy am ddyletswyddau cyfreithiol Ymddiriedolwyr yma **https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3**





# MAE ANGEN INNI FYW EIN BYWYDAU

## 5 EDRYCH YMLAEN

### Blaenoriaethau Strategol

Os ydym am gyflawni ein cenhadaeth, mae angen i ni ofalu'n dda am bob rhan o'r sefydliad. Mae angen i ni fyw ein gwerthoedd a modelu ein hymrwymiad i waith perthynol sy'n ystyriol o drawma ym mhopeth rydym yn ei wneud. Bydd cael ffocws clir ar bob un o'r meysydd blaenoriaeth a restrwyd isod yn mynd â ni yn nes at gyflawni ein pwrpas.

- **Gofalu am ein hadnoddau ariannol**
  Sicrhau bod trefniadau trin a rheoli ariannol rhagorol yn parhau, a sicrhau bod cynlluniau ariannol a dulliau cynhyrchu incwm cadarn ac effeithiol yn eu lle ar gyfer y tymor canolig i hir.
- **Y bobl rydym yn eu cefnogi**
  Sicrhau bod y bobl rydym yn eu cefnogi yn profi gwasanaeth perthynol, sy'n ystyriol o drawma. Rydym yn gwneud hyn drwy ddal i ddatblygu a gwreiddio ein hymarfer perthynol ystyriol o drawma yn ein gwaith, prosiectau a gwasanaethau tra'n casglu storïau a data gonest am ein taith.
- **Ein pobl**
  Sicrhau bod ein gweithle yn profi diwylliant perthynol, ystyriol o drawma sy'n gynhwysol, yn croesawu amrywiaeth a chydraddoldeb, ac sy'n gyson â'n gwerthoedd. Sicrhau bod gan bob un ohonom offer, adnoddau ac amodau i wneud ein gwaith yn dda.
- **Strategaethau dylanwadu, marchnata a chyfathrebu cydlynol wedi'u targedu**
  Sicrhau bod gennym strategaeth gyfathrebu a dylanwadu berthynol ac ystyriol o drawma sy'n gallu addasu ar draws cynulleidfaoedd amrywiol, sy'n defnyddio ein pwyntiau cyswllt mewnol ar gyfer perthnasoedd, sy'n fesuradwy ac y gellir ei chyflawni â'r adnoddau sydd ar gael i ni.
- **Sicrhau golwg hirdymor strategol ar amgylchedd polisi presennol a datblygol y DU/gwledydd**
  Sicrhau nad yw newidiadau mewn amgylchiadau gwleidyddol yn amharu ar ein cynnydd a'n gallu i gyflawni ein gweledigaeth.
- **Diogelu a chydymffurfio**
  Sicrhau proses weithredol a llywodraethol gadarn ac addas i'r diben a chraffu ar ein harferion diogelu, iechyd a diogelwch a risg weithredol ac ymatebion i ddigwyddiadau difrifol.

### Gwneud mwy gyda'n gilydd: uno newydd yn creu gorwel newydd

Yn 2003, fe wnaethom uno ag Ymddiriedolaeth Mayday, elusen a oedd wedi dilyn taith debyg i ni yn Lloegr: o elusen draddodiadol yn darparu llety â chymorth, i lais ar gyfer newid systemau radical.

Roedd gennym werthoedd tebyg, ac roeddem eisoes wedi gweithio â thîm Mayday i ffurfio'r New System Alliance ar y cyd â Homeless Network Scotland, ac i gyflawni prosiectau tebyg i raglen arloesol Mayday, Asset Coaching, yng Nghymru. Yn Platfform roeddem yn edmygu egni a ffocws Mayday, ei hymroddiad cryf i'w gwerthoedd a chred bod newid systemau yn bosibl.

Er bod gan Platfform ffocws Cymreig, mae'r systemau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt ledled y DU, felly mae'n gwneud synnwyr i ni geisio ymestyn ein gwaith y tu hwnt i afon Hafren. Mae ein hadain fasnachol, Llesiant Platfform, eisoes yn gwneud gwaith da wrth baratoi'r ffordd i ni, ond mae angen i ni ymestyn ein gwaith elusennol hefyd.

**Oherwydd y rhesymau hyn a mwy, roedd uno'n gwneud synnwyr i'r ddwy elusen. Yn ôl ein Prif Swyddog Gweithredol, Ewan:**

> "Mae dod at ein gilydd fel un sefydliad yn teimlo fel y cam rhesymegol nesaf, gan rannu ein gwybodaeth, profiad, gwersi a ddysgwyd ac adnoddau er mwyn dal i weithio tuag at wireddu ein huchelgais o wasanaethau cyhoeddus seiliedig ar gryfderau, perthynol ac ystyriol o drawma."

# 6 RÔL YMDDIRIEDOLWYR AC AM BWY RYDYM YN CHWILIO

## Am y rôl:

Does dim angen i chi gael profiad blaenorol o fod ar Fwrdd, ond mae angen gallu dangos dealltwriaeth o lywodraethu elusen.

Gallwch ddarganfod mwy am ddyletswyddau cyfreithiol Ymddiriedolwr Elusen yma - **(www.gov.uk)https://www.gov.uk/government/collections/5-minute-guides-for-charity-trustees** - a cheir mwy o fanylion yma - **https://www.gov.uk/government/publications/the-essential-trustee-what-you-need-to-know-cc3**

Yn Platfform rydym yn ceisio sicrhau bod mewnbwn a dylanwad ein hymddiriedolwyr yn cyrraedd y tu hwnt i'r lefel sylfaenol, a'u bod yn cyfrannu at drafodaethau cynhyrchiol a llunio strategaeth. Rydym yn credu'n gryf ei bod yn fwy buddiol cael llawer o bobl i rannu eu meddyliau, rhinweddau a phrofiadau. Felly gwahoddir Ymddiriedolwyr Platfform i chwarae rhan weithredol yn y broses o helpu i bennu ein cyfeiriad strategol ar y cyd â'r tîm gweithredol a thimau eraill Platfform.

Gallwch ddarganfod mwy am ein Hymddiriedolwyr, y tîm gweithredol, a rhai o'r tîm ehangach yma **https://platfform.org/about-us/this-is-us/**

Mae'r Bwrdd yn cyfarfod bob chwe mis ar-lein. Rydym yn cynnal digwyddiad strategol blynyddol ar gyfer y Bwrdd a'r tîm gweithredol. Mae hwn yn ddigwyddiad dau ddiwrnod a gynhelir wyneb yn wyneb.

Nid oes tâl am wneud y gwaith, ond telir yr holl gostau rhesymol.

Mae ymddiriedolwyr yn dal y swydd am hyd at ddau dymor. Mae'r tymor cyntaf yn 5 mlynedd a'r ail dymor yn 4 blynedd

## Am bwy rydym yn chwilio.

Yn bennaf oll, mae angen i chi fod wedi eich ysbrydoli gan ein cenhadaeth, ac yn ei chefnogi.

Rydym wedi ymrwymo i fyw ein gwerthoedd ar lefel Bwrdd a chynrychioli'r rhai hynny yn aml iawn nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol mewn sefydliadau. Rydym wedi ymrwymo i ddal i gynyddu amrywiaeth ein Bwrdd Ymddiriedolwyr.

Ar hyn o bryd mae ein Grŵp Gweithredu ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant yn adeiladu ar ein gwaith gwrth-hiliaeth ac yn datblygu rhaglenni gwaith sy'n canolbwyntio ar addysg a chefnogaeth LHDTC+ a niwroamrywiaeth.

Darllenwch ein datganiad gwrth-hiliaeth a'n hymrwymiad yma: **https://platfform.org/equality/**

Rydym yn chwilio am bobl sydd â phrofiad ym maes llywodraethu a/neu arweiniad strategol yn y sectorau elusennol, cyhoeddus a masnachol, ac sy'n hyderus i gyfrannu tuag at lywodraethu elusen uchelgeisiol sy'n tyfu'n gyflym. Yn fwyaf penodol, rydym yn awyddus i glywed gan arweinwyr entrepreneuraidd, sydd â phrofiad o greu a galluogi amgylcheddau twf blaengar wrth i ni geisio cryfhau a datblygu ein Pwyllgor Cadernid Busnes.

Mae angen i'n Hymddiriedolwyr allu darparu goruchwyliaeth, cefnogaeth, a her er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o adnoddau a gweithredu'r elusen yn ddiogel, tra'n cyfrannu hefyd tuag at drafodaeth gynhyrchiol a llunio ein strategaeth barhaus.

**Dyma rai o'r pethau penodol rydym yn chwilio amdanynt. Os nad ydych yn gweld eich hun yma, ond eich bod yn cysylltu â'n cenhadaeth ac yn teimlo bod gennych rywbeth i'w gynnig cysylltwch â ni; byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi hefyd.**

- **Uwch arweinyddiaeth strategol yn y sector elusennol, cyhoeddus neu fasnachol**
- **Busnes strategol a/neu gyllid, buddsoddiadau masnachol a/neu effaith gymdeithasol, twf a datblygiad busnes**
- **Uwch arweinyddiaeth ym maes iechyd meddwl neu faes tebyg – cyflenwi gwasanaeth diogelu risg a chydymffurfio**
- **Polisi, materion cyhoeddus, ac ymgyrchu**
- **Marchnata, cyfathrebu, adrodd hanesion**
- **Data ymchwil, effaith**
- **Cyfiawnder cymdeithasol, newid systemau**
- **Datblygu sefydliadol ac adnoddau dynol**

Rydym wrthi'n sefydlu Pwyllgor Cadernid Busnes a byddwn yn ceisio llenwi swyddi ar yr is-bwyllgor hwn fel rhan o'r rownd recriwtio hon. Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn aelod o'r pwyllgor hwn, a'ch bod yn meddwl bod gennych y sgiliau a'r profiad priodol, cysylltwch â ni.

PLATFFORM

# SUT I WNEUD CAIS:

**Os oes gennych ddiddordeb yn y rôl ac y byddech yn hoffi darganfod mwy, edrychwch ar ein gwefan www.platfform.org and follow us on Twitter at @weareplatfform.**

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y rôl cyn cyflwyno cais ffurfiol, cysylltwch â Heidi O'Driscoll, Cynorthwyydd Personol y Tîm Gweithredol, a fydd yn eich cyfeirio at Ewan, ein Prif Swyddog Gweithredol, neu Anne-Louise, ein Cadeirydd – heidiodriscoll@platfform.org.

**Ar gyfer y cais ffurfiol hoffem i chi anfon y canlynol atom:**

- C.V. cryno cyfredol (dim mwy na thair ochr) – peidiwch â phoeni os nad oes gennych hanes gwaith cyflogedig hir. Mae C.V. bywyd yr un mor ddiddorol i ni – felly byddwch mor greadigol ag y dymunwch.
- Datganiad byr, ysgrifenedig, fideo neu nodyn llais*, yn ateb y tri chwestiwn a ganlyn.
    - o Beth sydd o ddiddordeb i chi yn Platfform a pham?
    - o Beth fyddai ein profiad ni ohonoch chi pe baech chi yn Ymddiriedolwr?
    - o Pa ychwanegiad i'n trefniadau llywodraethu fyddech chi'n gallu ei gynnig?
- Ffurflen monitro Cydraddoldeb wedi'i llenwi. Dydyn ni ddim yn hoffi cael llawer o ffurflenni drwy'r adeg ychwaith, ond mae'n bwysig iawn ein bod yn deall pwy sy'n cyrraedd – a phwy sydd ddim yn cyrraedd – er mwyn i ni allu dal i wella ein gwaith Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant

** Ni ddylai cyflwyniadau ysgrifenedig fod yn fwy na dwy ochr A4 maint ffont 11. Ni ddylai nodiadau llais a fideos fod yn fwy na phedwar munud.*

Byddwn yn cadw'r hysbyseb ar agor ar y cychwyn tan 18 Awst. Byddwn yn ymateb ac yn cyfarfod pobl fel y byddwn yn derbyn eu ceisiadau. Dylech ymgeisio cyn gynted ag y gallwch.

Dylid anfon ceisiadau at Heidi O'Driscoll yn **heidiodriscoll@platfform.org**

PLATFFORM
For mental health and social change
Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol



PLATFORM

**For mental health and social change**
Dros iechyd meddwl a newid cymdeithasol